

Busnes y Senedd

Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus

Mai 2020



Senedd Cymru
Busnes y Senedd

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Yr Uned Cymorth Craffu

Senedd

Bae Caerdydd

CF99 1SN

E-bost: deddfwriaeth@senedd.cymru

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

01. Cyflwyniad	3
02. Pryd y gellir diwygio Bil?	4
03. Derbyniadwyedd gwelliannau	6
03.1. Derbyniadwyedd ym mhob cyfnod	6
Y Ffurf Briodol – Rheol Sefydlog 26.61(i).....	6
Perthnasedd – Rheol Sefydlog 26.61(ii)	6
Cysondeb â'r Egwyddorion Cyffredinol – Rheol Sefydlog 26.61(iii)	6
Cysondeb â phenderfyniadau a wnaed eisoes – Rheol Sefydlog 26.61(iv).....	7
Gwelliannau o'r un math.....	7
03.2. Derbyniadwyedd yn y Cyfnod 3 Pellach a'r Cyfnod Adrodd Pellach	7
03.3. Derbyniadwyedd yn y Cyfnod Ailystyried	7
04. Pwy sy'n gallu cyflwyno gwelliannau?	8
05. Pryd y gall Aelodau gyflwyno gwelliannau?	9
06. Sut mae Aelodau yn cyflwyno gwelliannau?	10
07. A all Aelod ychwanegu ei enw at welliant Aelod arall?	11
08. A all Aelodau dynnu eu gwelliannau yn ôl?	12
09. A all Aelodau gyflwyno gwelliannau i welliant?	13
10. Iaith gwelliannau	14

01. Cyflwyniad

01. Nod y canllaw hwn yw rhoi cyngor i Aelodau ar gyflwyno gwelliannau yn ystod taith Bil drwy'r Senedd. Ni fwriedir iddo fod yn gynhwysfawr ac os oes gan Aelodau unrhyw gwestiynau ychwanegol, fe'u hanogir i ofyn i'r tîm clericio sy'n ymdrin â'r Bil dan sylw am gyngor.

02. Pryd y gellir diwygio Bil?

02. Mae dau brif gyfnod ar gyfer diwygio Bil - Cyfnod 2 (trafodion pwyllgor) a Chyfnod 3 (trafodion y Cyfarfod Llawn). I gael rhagor o wybodaeth am y rhain, gweler **Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**.
03. Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn darparu ar gyfer cyfnod diwygio ychwanegol – y Cyfnod Adrodd, sy'n amodol ar gytundeb gan y Senedd ar gynnig gan yr Aelod sy'n Gyfrifol.
04. Y cyfnodau diwygio eraill yw'r Cyfnod 3 pellach, y Cyfnod Adrodd pellach a'r Cyfnod Ailystyried. Mae'r rhain wedi'u cyfyngu, i raddau helaeth, i fynd i'r afael â materion technegol neu, yn achos y Cyfnod Ailystyried, materion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Crynodeb o'r broses ar gyfer craffu ar Filiau Cyhoeddus gan y Senedd

Bil yn cael ei gyflwyno gan yr Aelod sy'n Gyfrifol

Y Pwyllgor Busnes yn penderfynu addylid cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol (A phennu dyddiad cau i'r pwyllgor adrodd yn ôl)

Cyfnod 1
Egwyddorion
Cyffredinol

↓ Ydy

Y pwyllgor cyfrifol yn ymgynghori ac yn clywed tystiolaeth.

Yn cyhoeddi ei Adroddiad Cyfnod 1



↓ Nac ydy

Y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil?

Nac Y Bil yn ydy ⇒ methu

↓ Ydy

Yn symud ymlaen i Gyfnod 2

Cyfnod 2
Craffu fesul llinell

Gwelliannau ⇒

Y Senedd yn cytuno ar Benderfyniad Ariannol ar gyfer y Bil o fewn 6 mis?

Nac Y Bil yn ydy ⇒ methu

↓ Ydy

Ystyriaeth fanwl gan bwyllgor

Cyfnod 3
Craffu fesul llinell

Gwelliannau ⇒

Ystyriaeth fanwl gan y Senedd

Cyfnod 3 pellach
(dewisol)
Craffu fesul llinell

Gwelliannau ⇒

gan yr Aelod sy'n Gyfrifol neu'r Llywodraeth yn unig

Ystyriaeth fanwl gan y Senedd

Y Cyfnod Adrodd
(dewisol)
Craffu fesul llinell

Gwelliannau ⇒

Ystyriaeth fanwl gan y Senedd

Cyfnod Adrodd Pellach
(dewisol) Craffu fesul llinell

Gwelliannau ⇒

gan yr Aelod sy'n Gyfrifol neu'r Llywodraeth yn unig

Ystyriaeth fanwl gan y Senedd

Cyfnod 4
Dadl ar basio'r Bil

A yw'r Senedd yn cytuno ar y cynnig i basio'r Bil?

Nac Y Bil yn ydy ⇒ methu

↓ Ydy

Y Bil yn dod yn Ddeddf

(ac os nadoes unrhyw her gyfreithiol)
Y Cydsyniad Brenhinol



03. Derbyniadwyedd gwelliannau

03.1. Derbyniadwyedd ym mhob cyfnod

05. Er mwyn bod yn dderbyniadwy, mae'n rhaid i welliannau gydymffurfio â'r gofynion a osodir yn Rheol Sefydlog 26.61, sy'n nodi na fydd gwelliant yn dderbyniadwy:
- os nad yw ar ei ffurf briodol;
 - os nad yw'n berthnasol i'r Bil neu ddarpariaethau'r Bil y byddai'n ei ddiwygio;
 - os yw anghyson ag egwyddorion cyffredinol y Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Senedd; neu
 - os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig.

Y Ffurf Briodol – Rheol Sefydlog 26.61(i)

06. Mae'r Llywydd wedi cyhoeddi **Penderfyniad ar Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau Cyhoeddus** yn unol â Rheol Sefydlog 26.58.
07. Mae'n annhebygol na fyddai gwelliant yn cael ei ystyried yn dderbyniadwy ar y sail nad yw yn y ffurf briodol yn unig, os yw'r methiant i gydymffurfio â'r penderfyniad yn ddibwys. Yn ymarferol, bydd clercod yn ceisio sicrhau bod gwelliant sy'n cynnwys gwall o'r fath, ond sydd fel arall yn dderbyniadwy, yn cael ei gywiro cyn iddo gael ei gyflwyno.

Perthnasedd – Rheol Sefydlog 26.61(ii)

08. Mae hwn yn faen prawf allweddol. Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy os yw y tu allan i gwmpas y Bil, er enghraifft, os yw gwelliant yn ceisio ychwanegu diben newydd at Fil nad yw'n berthnasol i'r darpariaethau presennol yn y Bil. Yn gyffredinol, bwriad y teitl hir yw rhoi disgrifiad cryno o brif ddiben(ion) Bil ac mae felly'n ganllaw defnyddiol i benderfynu ar ei gwmpas yn y lle cyntaf.
09. Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn hawdd penderfynu a gafodd y maen prawf hwn ei fodloni ac, os oes unrhyw amheuaeth, dylai Aelodau gael cyngor gan y clercod cyn cyflwyno'r gwelliant. Yn y pen draw, y Llywydd fydd yn penderfynu a yw gwelliant o fewn y cwmpas ai peidio.
10. Fel rheol, ni fydd gwelliannau i deitl hir Bil yn berthnasol oni bai eu bod yn sicrhau bod y teitl hir yn adlewyrchu'r darpariaethau presennol yn well neu os ydynt am ei addasu i ystyried gwelliannau a wnaed mewn rhannau eraill o'r Bil.

Cysondeb â'r Egwyddorion Cyffredinol – Rheol Sefydlog 26.61(iii)

11. Diben y maen prawf hwn yw dileu'r hyn a elwir yn 'welliannau dinistriol', sef gwelliannau a fyddai'n gwrthdroi prif ddiben y Bil, ei newid yn sylweddol, neu ei wneud yn aneffeithiol. Erbyn yr amser y mae'n bosibl diwygio'r Bil (yng Nghyfnod 2), mae'r Senedd eisoes wedi pleidleisio o blaid ei egwyddorion cyffredinol (yng Nghyfnod 1). Prif ddiben gwelliannau yw craffu'n fanwl ar y Bil a gwella'r modd y mae'n rhoi effaith i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

12. Y trywydd cywir felly i Aelodau sy'n gwrthwynebu hanfod sylfaenol y Bil yw gwrthwynebu'r cynnig i gymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1 neu, os bydd unrhyw welliannau y cytunwyd arnynt yn ddiweddarach yn annigonol i'w gwneud yn dderbyniol yn eu barn hwy, i wrthwynebu'r cynnig i basio'r Bil yng Nghyfnod 4.

Cysondeb â phenderfyniadau a wnaed eisoes – Rheol Sefydlog 26.61(iv)

13. Diben y maen prawf hwn yw atal penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar sail un gwelliant rhag cael eu gwrthdroi, yn y bôn, gan benderfyniad ar welliant dilynol yn yr un cyfnod.
14. Mae'n bosibl y gallai gwelliant a oedd yn dderbyniadwy pan gafodd ei gyflwyno ddod yn anghyson â phenderfyniad a wnaed ar welliant yn yr un cyfnod. Yn yr achos hwn, byddai'r gwelliant cynharach yn achub y blaen ar y gwelliant neu'r gwelliannau hwyrach ac ni fyddai galw am benderfyniad, hynny yw, byddai'r gwelliant yn methu.

Gwelliannau o'r un math

15. Er na ddarperir yn benodol ar ei gyfer yn Rheol Sefydlog 26.61, yn unol â'r arfer a sefydlwyd, nid yw gwelliant yn dderbyniadwy os cafodd gwelliant o'r un math ei gyflwyno eisoes. Byddai hyn yn cynnwys gwelliannau sy'n amrywio o ran manylion dibwys yn unig na fyddent yn cael unrhyw effaith gyfreithiol.
16. Mae gan Aelod sy'n dymuno cyflwyno gwelliant o'r fath y dewis o naill ai newid y gwelliant i'w gwneud yn sylweddol wahanol neu ychwanegu ei enw i'r gwelliant a gyflwynwyd eisoes.

03.2. Derbyniadwyedd yn y Cyfnod 3 Pellach a'r Cyfnod Adrodd Pellach

17. Yn ychwanegol at y meini prawf uchod, dim ond yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil neu aelod o'r Llywodraeth sy'n gallu cyflwyno gwelliannau yn y Cyfnod 3 Pellach a'r Cyfnod Adrodd Pellach. Maent yn dderbyniadwy dim ond os ydynt at ddiben egluro darpariaeth o'r Bil (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu'n rhoi effaith i ymrwymadau a roddwyd (gan yr Aelod sy'n gyfrifol neu'r Llywodraeth, fel sy'n briodol) yn y trafodion Cyfnod 3 cynharach neu'r Cyfnod Adrodd (Rheol Sefydlog 26.41).

03.3. Derbyniadwyedd yn y Cyfnod Ailystyried

18. Yn ychwanegol at y meini prawf a nodwyd yn Rheol Sefydlog 26.61, nid yw gwelliannau yn y Cyfnod Ailystyried ond yn dderbyniadwy os ydynt at ddiben datrys y mater neu'r materion a nodwyd gan y Goruchaf Lys (neu'r Ysgrifennydd Gwladol os caiff pwerau ymyrryd arbennig yr Ysgrifennydd Gwladol eu rhoi ar waith) (Rheol Sefydlog 26.55).

04. Pwy sy'n gallu cyflwyno gwelliannau?

19. Gall unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, Cyfnod 3 a'r Cyfnod Adrodd. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno er y dylai Aelodau nodi y gallai'r Llywydd ddewis y gwelliannau hynny sydd i'w hystyried yng Nghyfnod 3 a'r Cyfnod Adrodd.
20. Er y gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2, dim ond aelod o'r pwyllgor cyfrifol all gynnig gwelliant (a phleidleisio arno) yn ystod trafodion Cyfnod 2 (Rheol Sefydlog 26.22). Gall Aelodau eraill ddod i'r trafodion (gyda chaniatâd y cadeirydd) a chymryd rhan yn y ddadl, ond mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i aelod o'r pwyllgor sy'n fodlon cynnig eu gwelliant ar eu rhan.
21. Dim ond yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil neu unrhyw aelod o'r Llywodraeth a all gyflwyno gwelliannau yn y Cyfnod 3 Pellach a'r Cyfnod Adrodd Pellach (Rheol Sefydlog 26.40).

05. Pryd y gall Aelodau gyflwyno gwelliannau?

22. Gellir cyflwyno gwelliannau ar gyfer trafodion Cyfnod 2 ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben, sef y diwrnod ar ôl y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol (Rheol Sefydlog 26.20).
23. Gellir cyflwyno gwelliannau ar gyfer trafodion Cyfnod 3 ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben, sef y diwrnod ar ôl i bwyllgor ystyried y gwelliannau yng Nghyfnod 2 am y tro olaf (Rheol Sefydlog 26.33).
24. Gellir cyflwyno gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r Senedd gytuno i ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd.
25. Mae'n rhaid cyflwyno gwelliannau heb fod yn llai na phum diwrnod gwaith cyn iddynt gael eu hystyried (Rheol Sefydlog 26.59). Bydd y clercod perthnasol yn rhoi gwybod i Aelodau am y terfynau amser drwy e-bost pan fyddant yn hysbys. Yn ôl confensiwn, mae Gweinidogion Cymru fel arfer yn cyflwyno eu gwelliannau heb fod yn llai na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod lle byddant yn cael eu hystyried.
26. O dan amgylchiadau eithriadol, caiff y Llywydd dderbyn 'gwelliant hwyr' yng Nghyfnod 3 neu yn y Cyfnod Adrodd. Mae 'gwelliant hwyr' yn welliant lle rhoddwyd llai na phum diwrnod gwaith o rybudd (Rheol Sefydlog 26.35).
27. Os na chyflwynir unrhyw welliant i adran o Fil neu Atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor neu'r Senedd wedi derbyn yr adran neu'r Atodlen honno. Fel y cyfryw, os yw Aelod yn dymuno cael dadl ar adran arbennig o Fil neu Atodlen iddo, mae'n rhaid iddo gyflwyno gwelliant i'r adran neu'r Atodlen honno.

o6. Sut mae Aelodau yn cyflwyno gwelliannau?

28. Mae gwelliannau'n cael eu cyflwyno yn electronig neu ar ffurf copi caled drwy gyflwyno ffurflen Hysbysiad ynghylch Gwelliant i'r tîm clercod perthnasol. Mae'r ffurflen ar gael (i Aelodau) yn y **Canllaw ar Filiau a Deddfau**.
29. Dylid llenwi'r ffurflen Hysbysiad ynghylch Gwelliant gyda manylion yr Aelod a theitl y Bil.
30. Dylai testun y gwelliant (gwelliannau) yn ei ffurf briodol gael ei nodi ar y ffurflen. Fel arall, gellir cyflwyno testun y gwelliant (gwelliannau) fel rhestr atodedig, ac os felly mae'n rhaid ei gadarnhau ar y ffurflen Hysbysiad ynghylch Gwelliant.
31. Rhaid i unrhyw destun esboniadol y mae'r Aelod yn dymuno ei gyflwyno gyda'i welliant(gwelliannau) gael ei gynnwys ar y ffurflen, gerllaw'r gwelliant y mae'n berthnasol iddo. Ni ddylai'r testun esboniadol am bob gwelliant fod yn hwy nag oddeutu 50 gair, ac mae'n rhaid iddo nodi pwrpas y gwelliant yn wrthrychol. Ni fydd testun sy'n ceisio hyrwyddo'r gwelliant yn cael ei dderbyn.
32. Os bydd angen i unrhyw Aelod ddatgan unrhyw fuddiant cofrestradwy neu berthnasol, mae'n rhaid llenwi adran berthnasol y ffurflen Hysbysiad o Welliant a darparu'r manylion.
33. Dim ond Aelod o'r Senedd neu aelod awdurdodedig o'i staff cymorth all lofnodi ffurflenni Hysbysiad ynghylch Gwelliant a'u hanfon i'w cyflwyno. Gall Aelod roi awdurdodiad i aelod o'i staff cymorth (yn ddelfrydol drwy anfon e-bost) i fewnflwch deddfwriaeth@senedd.cymru.
34. Gall clercod ddarparu neu drefnu cyngor gweithdrefnol, cyfreithiol a chyflwyno i Aelodau a'u staff, yn cynnwys mewn perthynas â drafftio gwelliannau, derbyniadwyedd a llenwi ffurflenni Hysbysiad ynghylch Gwelliant.
35. Dylai ffurflenni cyflwyno wedi'u llenwi gael eu cyflwyno'n electronig i'r mewnflwch Deddfwriaeth – deddfwriaeth@senedd.cymru – neu eu rhoi ar ffurf copi caled i'r clerck perthnasol.
36. Mae derbyn gwelliant derbyniadwy gan y tîm clercod yn ystod oriau cytunedig, yn cynnwys ei dderbyn trwy fodd electronig, yn gyfystyr â chyflwyno'r gwelliant.
37. Mae'r oriau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yr un fath â'r oriau y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt ar gyfer y Swyddfa Gyflwyno:
 - Dydd Llun 09.00 – 17.00
 - Dydd Mawrth 09.00 – 18.00
 - Dydd Mercher 09.00 – 18.00
 - Dydd Iau 09.00 – 17.00
 - Dydd Gwener 09.00 – 16.00
38. Yn ystod y toriad, bydd dyddiau ac amseroedd cyflwyno penodol. Y Pwyllgor Busnes sy'n cytuno ar y rhain a'r Swyddfa Gyflwyno sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau amdanynt.
39. Caiff pob gwelliant derbyniadwy a gyflwynwyd cyn 12.30 ei gyhoeddi ar dudalen y Bil ar y we y diwrnod canlynol. Caiff gwelliannau a gyflwynwyd ar ôl 12.30 eu cyhoeddi ddiwrnod yn ddiweddarach.

07.A all Aelod ychwanegu ei enw at welliant Aelod arall?

40. Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw at welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) a gyflwynwyd gan Aelod arall drwy hysbysu'r tîm clercod perthnasol ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn y bwriedir ystyried gwelliant (Rheol Sefydlog 26.6o).
41. Mae ychwanegu ei enw at welliant yn dangos cefnogaeth i'r gwelliant hwnnw ond mae hefyd yn atal y cynigydd gwreiddiol rhag tynnu'r gwelliant yn ôl heb gefnogaeth pawb sydd wedi ychwanegu'u henwau (caiff hyn ei egluro ymhellach isod).
42. Bydd enwau'r Aelodau hynny sydd wedi cefnogi pob gwelliant yn ffurfiol yn cael eu cyhoeddi ar y Rhestr o Welliannau wedi'i Didoli (gweler y **Canllaw i welliannau i Filiau Cyhoeddus**).

o8. A all Aelodau dynnu eu gwelliannau yn ôl?

43. Gall Aelod dynnu ei welliant yn ôl (ac eithrio gwelliant hwyr) ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y caiff ei ystyried, cyn belled â'i fod wedi cael cytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu'u henwau. Os na chaiff gytundeb o'r fath, daw'r gwelliant yn welliant yn enw'r Aelod a ychwanegodd ei enw yn gyntaf ac nad yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl.
44. Gall Aelodau hefyd ddewis peidio â chynnig eu gwelliannau yn ystod trafodion, os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Os ydynt yn dewis peidio â chynnig eu gwelliannau, gall aelod arall o'r pwyllgor yng Nghyfnod 2, neu unrhyw Aelod arall yng nghyfnod diwygio y Cyfarfod Llawn, gynnig y gwelliant.
45. Os yw gwelliant wedi cael ei gynnig yn ystod y trafodion (er enghraifft prif welliant yn cael ei gynnig at ddibenion dadl), gall Aelod geisio tynnu'r gwelliant yn ôl o hyd. Fodd bynnag, dim ond gyda chytundeb y pwyllgor (yng Nghyfnod 2) neu'r Senedd (yng Nghyfnod diwygio'r Cyfarfod Llawn) y gall yr Aelod wneud hynny.

09. A all Aelodau gyflwyno gwelliannau i welliant?

46. Gellir cyflwyno gwelliant i welliant a gyflwynwyd eisoes (Rheol Sefydlog 26.62).
47. Dylid cyfyngu ar gyflwyno gwelliannau i welliannau i achosion lle gall Aelod gytuno mewn egwyddor â'r gwelliant gwreiddiol ond gall fod yn dymuno amrywio rhai manylion penodol oddi mewn iddo. Er enghraifft, os yw'r gwelliant gwreiddiol yn darparu ar gyfer cyfnod rhybudd penodol (ee un mis), gall Aelod fod yn dymuno ei amnewid am gyfnod o amser gwahanol (ee chwe mis) drwy welliant i'r gwelliant.
48. Mae gwelliant i welliant yn ddarostyngedig i'r un meini prawf derbyniadwyedd â gwelliannau eraill (hy rhaid iddo fod yn y Ffurf Briodol, yn berthnasol etc.).
49. Gall Clercod ddarparu cyngor i Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno gwelliannau ar wahân, neu welliannau i welliannau.

10. Iaith gwelliannau

50. Gellir cyflwyno gwelliannau i Filiau, ac eithrio gwelliannau a gyflwynir ar ran y Llywodraeth, yn Saesneg, yn Gymraeg neu yn y ddwy iaith.
51. Mae'n rhaid i welliannau a gyflwynir gan y Llywodraeth fod yn y ddwy iaith, cyn belled ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.
52. Mae **Penderfyniad y Llywydd ar Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau Cyhoeddus** yn cynnwys darpariaethau am gymhwyso'r rheol hon.
53. Bydd gwelliannau ar gael yn ddwyieithog pan fyddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Bil ar wefan y Bil.